**Cynradd**

**Crynodeb o hunan arfarniad o Addysg Grefyddol yn Ysgol Gynradd Friog**

(Gweler canllawiau pynciol Ffeil Hunan Arfarnu CYNNAL 2005)

| |
|---|
| **Cwestiwn 1 : Pa mor dda mae dysgwyr yn cyflawni mewn Addysg Grefyddol?** |
| • Mae hunan arfarniad yn seiliedig ar arsylwadau gwersi, arfarniad o waith disgyblion, cyfweliadau â disgyblion a dadansoddiad o asesiadau athrawon. |
| **Barn gryno am brif gryfderau cyflawniad y dysgwyr Gradd: 2** |
| Mae'r disgyblion yn adnabod y Beibl fel Llyfr Sanctaidd ac yn gwybod hanesion am fywyd Iesu Grist. Maent yn ymwybodol o rhai o grefyddau eraill y byd ac arferion, defodau a dathliadau sy'n gysylltiedig â hwy. Maent yn gwybod am arweinwyr ac arloeswyr fel Gwladys Aylward. Mae'r disgyblion yn dangos dealltwriaeth o ystyr perthyn i gymuned Cristnogol a phwysigrwydd gofalu a pharchu eraill. Maent wedi gwneud llawer i godi arian ar gyfer amrywiaeth o elusennau ac eraill sy'n llai ffodus na nhw eu hunain. |
| **Pa agweddau fydd yn derbyn sylw dros y ddwy flynedd nesaf?** |
| • Perthynas ag Eraill a'r Amgylchfyd<br>• Ffordd o Fyw<br>• Arweinyddion Crefyddol<br>• Addoliad a Myfyrdod |

**Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.**

| |
|---|
| **Cwestiwn 3: Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?** |
| • Mae hunan arfarniad yn seiliedig ar arsylwadau gwersi, arfarniad o waith disgyblion, cyfweliadau â disgyblion a gwerthusiad o gyfnodau addoli ar y cyd a gwersi ABCh.<br>• Disgwylir cyfeiriad yma at ddatblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion. |
| **Barn gryno am ansawdd y ddarpariaeth Gradd : 2** |
| Mae'r disgyblion yn cyd-addoli'n rheolaidd ac yn mwynhau cymryd rhan gyda'u cyfoedion. Byddant yn mwynhau ymweld a'r addoldy lleol a chymryd rhan mewn gweithgareddau a gwasanaethau tymhorol yn ystod y flwyddyn. Yn dilyn o'r gwersi yn yr ysgol, mae'r disgyblion yn ymwybodol o arferion a rheolau crefyddol a'u heffaith ar fywydau pobl. Maent yn deall y pwysigrwydd o gadw at reolau bywyd. Mae'r plant bob amser yn feddylgar ac yn parchu eraill. |
| **Pa agweddau fydd yn derbyn sylw yr ysgol dros y flwyddyn nesaf?** |
| • I ddeall fod gan bawb deimladau gwahanol ac fod angen eu parchu<br>• I adnabod gwaith elusennau a sut y gallwn ni helpu eraill<br>• Yn dilyn strategaethau Ysgol Dina (Webster Stratton) i ddatblygu sgiliau cymdeithasol y plentyn.<br>• Ymestyn dealltwriaeth o bwrpas a gwerth rheolau crefyddol<br>• Bod yn ymwybodol o sut mae y gwahanol grefyddau yn dangos parch at fyd natur<br>• Patrwm addoliad yn y gymuned. |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cwbwlhau'r arfarniad: 16/10/2007** | |
| **Arwyddwyd: Delyth M D Jones (Pennaeth)** | |